Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Foxhunters Care Community

Foxhunters Care Community
Iberis Road Llanfoist
Y Fenni
NP7 9LQ

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/12/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Foxhunters Care Community

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Dormy Care Communities Ltd
Lleoedd cofrestredig	70
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	30 Tachwedd 2021
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg

Crynodeb

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac mae'r amgylchedd maent yn byw ynddo yn neilltuol. Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y bobl yn unigol ac mae digonedd o weithgareddau ar gael. Mae'r staff, y mae llawer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers mwy na phum mlynedd, yn adnabod y bobl yn dda ac yn angerddol am y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym yn gyson eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y trefniadau gofal. Caiff llesiant y bobl ei hyrwyddo ond mae angen ystyried sut y gellir sicrhau lefelau staffio diogel ar bob adeg yn ystod y cyfnod dros nos. Mae systemau a phrosesau ar waith sy'n helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'u rheolwr llinell. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau adroddiadau sy'n dangos ei fod yn ymgysylltu'n dda â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn iach, yn actif ac yn gallu gwneud pethau sy'n hyrwyddo eu llesiant corfforol ac emosiynol. Cawsom sylwadau cadarnhaol iawn gan y bobl a'u perthnasau am y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys sylwadau yn nodi bod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Dywedodd un person bod gan ei berthynas gydberthynas arbennig â'r staff. Gwelsom y staff gofal yn darparu gofal da a oedd yn dangos parch at yr unigolyn, ac roedd yn amlwg bod y staff a'r bobl sy'n cael cymorth ganddynt yn adnabod ei gilydd yn dda. Gwelsom fod ffrindiau a pherthnasau yn cael eu croesawu i'r cartref, gan gefnogi a hyrwyddo llesiant emosiynol y bobl. Ceir ymdeimlad bod y gymuned yn cael ei chynnwys yn y gwasanaeth a bod cyfleoedd hefyd i'r bobl fynd allan i'r gymuned gyfagos os byddant yn dewis gwneud hynny.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Er enghraifft, mae cyfarfodydd clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal i adolygu iechyd y bobl a digwyddiadau sy'n peri pryder. Mae technoleg arloesol yn cael ei defnyddio i geisio lleihau nifer y cwympiadau yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn deall pwy y dylid rhoi gwybod iddynt am bryderon. Cynhelir gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar y staff. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel. Mae trefniadau llywodraethu, archwilio a sicrhau ansawdd ar waith. Mae'r rhain yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso ac i nodi ble y mae angen gwneud gwelliannau. Ni lwyddwyd i gynnal lefelau staffio diogel bob amser yn ystod y nos. O'n harsylwadau yn ystod ein hymweliad a'r cofnodion gofal a welsom, ceir rhai achosion lle na chaiff anghenion y bobl bob amser eu diwallu'n unol â'u cynllun personol.

Gall y bobl fynegi eu barn ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd er mwyn i'r bobl a'u perthnasau/cynrychiolwyr allu lleisio eu barn ar bethau sy'n bwysig iddynt. Mae cofnodion y cyfarfodydd yn dangos bod y gwasanaeth yn ystyried eu safbwyntiau ac yn ymateb iddynt. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis. Mae'r cofnodion gofal yn nodi os na fydd y bobl yn gallu cymryd rhan yn y pethau y maent yn eu mwynhau oherwydd iechyd gwael, y bydd y staff yn mynd â'r gweithgaredd atynt, gan felly hyrwyddo eu llesiant. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn dangos eu personoliaethau unigol a'r pethau y maent yn eu mwynhau. Mae gan y darparwr systemau ar waith i gael gwybod barn a safbwyntiau'r bobl ar unrhyw agwedd ar y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd a'r ardaloedd awyr agored yn neilltuol ac mae'r golygfeydd yn rhagorol, gan gyfoethogi bywydau'r bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn. Gall y bobl ddefnyddio cyfleusterau megis campfa, ystafell sinema, ardaloedd llyfrgell, siop trin gwallt, bar, caffi, a gallant hefyd drefnu i ddefnyddio ystafell fwyta breifat i ddathlu achlysuron arbennig yng nghwmni anwyliaid. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cael eu cynnal a'u cadw'n hyfryd ac maent yn hawdd i bawb eu cyrraedd. Mae'r

bobl yn cael pleser o dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain. Caiff pot flodau o ddewis yr unigolyn ei roi yn ystafell yr unigolion hynny sy'n cael cymorth yn y gwely yn bennaf, er mwyn sicrhau bod pob person yn cael ei gynnwys.

Gofal a Chymorth

Mae llawer o gyfleoedd i'r bobl gael eu cynnwys mewn gweithgareddau o'u dewis, gan hyrwyddo hapusrwydd y bobl a'u hymdeimlad cyffredinol o lesiant. Mae'r darparwr yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Caiff dosbarthiadau Cymraeg eu cynnal bob wythnos gan y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r darparwr yn cyflogi unigolyn sy'n trin gwallt sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, a gwelsom fod y profiad hwn o fudd mawr i'r bobl. Mae'r perthnasau a ffrindiau yn canmol y cymorth a ddarperir yn fawr ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys o ddifrif yn y trefniadau gofal. Gall y bobl fynd i leoedd o ddiddordeb yn annibynnol neu â chymorth. Mae'r gwasanaeth yn rhan bwysig o'r gymuned, gydag ymweliadau gan blant ysgol, grwpiau llyfrgell a'r eglwys leol. Mae dau gydgysylltydd gweithgareddau yn gweithio'n gyson i hyrwyddo llesiant emosiynol y bobl. Mae'r staff yn garedig ac yn dosturiol wrth ymgysylltu â'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae gan y bobl sy'n derbyn gwasanaeth gynllun personol unigol a manwl. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar ffurf llwyfan digidol technoleg uchel i gofnodi anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae pob cynllun personol yn ymdrin â meysydd craidd anghenion gofal yr unigolyn ac yn nodi sut y gall y staff ei gefnogi'n ddiogel, gan gynnwys hanes bywyd y bobl a phethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg manwl ac yn eu diweddaru fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai achosion lle nad yw'r gofal a'r cymorth bob amser yn cael eu darparu'n unol â chynllun unigol y person. Er enghraifft, mae angen cymorth ar un person gan staff i fwyta prydau, ond gwelsom nad oedd hyn yn cael ei ddarparu a bod y person yn ei chael hi'n anodd bwyta ei frecwast. Gwelsom nad oedd cloch alw a oedd yn cael ei defnyddio i alw am gymorth gan aelod o staff gofal o fewn cyrraedd i un person sydd ei hangen i'w helpu i gyfathrebu â'r staff gofal yn unol â'r anghenion a aseswyd ar ei gyfer. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau ar waith i gefnogi iechyd y bobl a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae'r darparwr yn gwneud atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol mewn modd amserol er mwyn helpu'r bobl i aros yn iach. Gwelsom y staff gofal yn defnyddio cyfarpar i helpu'r bobl i symud o gwmpas, gan hyrwyddo annibyniaeth y bobl mewn modd gofalgar ac ystyrlon. Gwelsom y staff yn ymgysylltu ag unigolyn gan ddangos cynhesrwydd a dealltwriaeth tuag ato, gan leddfu ei bryderon. Mae'r darparwr yn defnyddio 'RoomMate', sef synhwyrydd diogelwch technoleg uchel i leihau achosion o gwympo ac i nodi achosion o gwympo yn ystafelloedd gwely'r bobl er mwyn gwarchod a hyrwyddo diogelwch y bobl. Rhoddodd y darparwr sicrwydd i ni fod y ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gyflwynwyd eisoes i'r awdurdod perthnasol yn cael eu diweddaru i gynnwys y dull ychwanegol hwn o fonitro symudiadau'r bobl.

Mae trefniadau ar waith i helpu'r bobl â'u meddyginiaeth. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi yn ystafelloedd y bobl. Mae'r ymarfer hwn yn sensitif i anghenion y bobl ac yn parchu eu hawl i breifatrwydd. Nodwyd gennym fod meddyginiaethau yn cael eu rhoi'n

gywir; fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen monitro ymarfer rhai aelodau o staff yn fanylach. Rhoddodd darparwr y gwasanaeth sicrwydd bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd mewn perthynas â phob mater a nodwyd.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd o safon uchel iawn ac mae'n cefnogi llesiant y bobl mewn ffordd gyson effeithiol. Mae'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar o ansawdd uchel. Gall y bobl gyrraedd pob ardal yn ddiogel ac mae pob ardal gymunedol yn eu helpu i gyflawni eu llawn botensial. Mae'r caffi cymunedol, wrth ymyl mynedfa'r gwasanaeth yn boblogaidd, mae'r mae'r décor yn lliwgar ac yn groesawgar ac mae'r dodrefn o safon uchel. Yn ôl yr hyn a welsom, roedd y bobl yn gyfforddus, yn eistedd gyda'i gilydd, yn sgwrsio ac yn mwynhau eu prydau a'r gweithgareddau gyda'i gilydd. Ond roedd y bobl yr un mor fodlon yn ymlacio yng nghysur eu hystafelloedd gwely eu hunain sydd wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda.

Mae gan bob ystafell wely gyfleusterau ensuite ac mae digonedd o le i ddefnyddio cyfarpar, lle bo angen. Mae blychau atgofion sy'n cynnwys rhywbeth o ddiddordeb i'r person i'w gweld wrth fynedfa pob ystafell wely. Gwnaethom siarad ag un person a oedd yn mwynhau defnyddio'r gampfa sy'n cynnwys amrywiaeth dda o gyfarpar, ac wedyn gwnaethom dreulio amser gyda thri pherson a oedd yn gwylio ffilm gyda'i gilydd yn yr ystafell sinema gyferbyn. Mae technoleg glyfar ar gael a therapïau sgrin gyffwrdd ryngweithiol i'r bobl eu profi. Mae bar hefyd y gall y bobl ei fwynhau, sydd wedi'i ddylunio'n dda ac yn gyfforddus.

Mae lolfa ac ystafell fwyta ar wahân ar bob llawr sy'n fawr, yn gyfforddus ac yn apelgar. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi rhoi sgôr o bump i'r gwasanaeth, sy'n golygu bod y safonau hylendid yn 'dda iawn.' Mae'r profiad bwyta yn rhoi cyfle i'r bobl gymdeithasu a mwynhau dewis o brydau. Mae amrywiaeth o opsiynau ar y fwydlen, ac mae'r bobl yn cael cynnig dewisiadau amgen bob dydd. Mae'r bwyd o ansawdd uchel a dywedodd y bobl wrthym fod y bwyd o safon dda iawn yn gyson. Mae'r prydau bwyd yn edrych yn flasus. Mae'r byrddau wedi'u gosod yn hyfryd ac mae bwydlenni a halen a phupur ac ati ar y bwrdd i'r bobl. Mae byrbrydau cartref maethlon ar gael i'r bobl yn ystod y dydd yn ogystal ag amrywiaeth o ddiodydd poeth ac oer. Mae staff y gegin yn deall dewisiadau deietegol y bobl ac yn darparu ar eu cyfer.

Mae llesiant y bobl yn cael ei wella diolch i'r ardaloedd awyr agored sy'n hawdd eu cyrraedd, yn fawr ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Mae ardal batio breifat ar gael i'r bobl yn yr ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod ac mae balconi diogel wedi'i amgáu ar gael i'r bobl yn yr ystafelloedd ar y llawr uchaf. Mae'r rhain yn edrych allan dros y gerddi godidog ac yn cynnig golygfeydd trawiadol o fynyddoedd y Fenni a'r cyffiniau. Mae potiau llysiau yn rhoi'r cyfle i bobl dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain. Dywedwyd wrthym fod y cynhyrchion yn cael eu defnyddio wedyn yn y gegin ac yn cael eu bwyta gan y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r tîm cynnal a chadw a chontractwyr allanol yn cwblhau gwiriadau ac asesiadau iechyd a diogelwch er mwyn hyrwyddo diogelwch y bobl yn yr amgylchedd. Caiff gwiriadau tân rheolaidd eu cynnal ar y cyfarpar a'r amgylchedd a'u cofnodi.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith i fonitro ansawdd ac maent yn ystyried barn y bobl sy'n byw yn y cartref, perthnasau, y staff a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Unigolyn Cyfrifol i'w weld yn y gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan ddarparwr y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn darparu sesiynau goruchwylio 1:1 rheolaidd i'r rheolwr. Caiff archwiliadau sicrhau ansawdd eu cwblhau, a nodir camau gweithredu er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn goruchwylio'r gwasanaeth bob dydd ac yn gweithredu mewn ffordd ymarferol, gan helpu i ddarparu gofal os bydd angen. Mae systemau ar waith i gael gwybod safbwyntiau a barn y bobl, y staff ac ymwelwyr. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y trefniadau cyfathrebu'n dda. Mae'r gwasanaeth yn cynnal digwyddiadau gwobrwyo i gydnabod ymdrechion a chyflawniadau'r staff.

Mae angen ystyried sut y gellir cynnal niferoedd staffio diogel a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gwnaethom edrych ar y rotas staffio dros gyfnod o bum wythnos a nodwyd gennym ar y cyfan fod lefelau staffio yn cael eu cynnal. Serch hynny, gwelsom saith shifft nos pan oedd lefelau staffio'r gwasanaeth yn is na'r lefel sydd ei hangen ym marn y darparwr i sicrhau lefelau staffio diogel. Esboniodd y darparwr mai absenoldeb staff byr rybudd oedd yn gyfrifol am y sefyllfa, a'i fod wedi methu â threfnu staff cyflenwi, er iddo geisio gwneud hynny. Mae'n ofynnol hysbysu AGC am ddigwyddiadau o'r fath, ond nid oedd y darparwr wedi rhoi gwybod i ni. Gwelsom gofnodion gofal dau berson y mae angen eu hail-leoli'n rheolaidd gan fod risg o niwed i'w croen. Nodwyd gennym fod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol ar y cyfan, ond nodwyd sawl achos o oedi wrth leddfu pwysau yn unol â'r anghenion a aseswyd. Dywedodd y staff wrthym y gall fod yn anodd diwallu anghenion y bobl pan fydd lefelau staffio yn is. Nodwyd fod hyn yn golygu bod yn rhaid i rai pobl aros i'w hanghenion gofal gael eu diwallu. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau ar waith ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel, eu cefnogi a'u datblygu. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys geirdaon priodol fel sy'n ofynnol ac yn cynnwys y dogfennau adnabod perthnasol. Mae'r wybodaeth gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos bod y gwiriadau perthnasol wedi cael eu cwblhau. Caiff hanesion cyflogaeth eu cofnodi, fodd bynnag nid yw'r rhesymau dros adael swyddi blaenorol bob amser yn cael eu dilysu lle bo angen. Mae'r ystadegau hyfforddiant yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant gloywi mewn meysydd allweddol, megis codi a chario, dementia a diogelu. Mae aelodau newydd o staff yn cwblhau rhaglen sefydlu ac mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cynhelir cyfarfodydd â'r staff clinigol a'r staff gofal i rannu gwybodaeth ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl ond nid ydynt

yn cael sesiynau goruchwylio 1:1 rheolaidd â'u rheolwr llinell. Gwnaethom edrych ar gofnodion goruchwylio pedwar aelod o'r staff a nodwyd gennym nad oedd tri allan o'r pedwar wedi cael eu goruchwylio bob tri mis. Mae sesiynau goruchwylio ffurfiol yn yr ystyr hwn yn cyfeirio at drafodaeth un i un wedi'i dogfennu rhwng aelod o'r staff a'i reolwr llinell er mwyn sicrhau ei fod yn cynnal ei gymhwysedd proffesiynol. Mae'n galluogi'r staff i fyfyrio ar eu hymarfer ac athroniaeth gofal y cartref, ac i drafod unrhyw faterion a nodi nodau datblygu. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
34	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod nifer digonol o staff â'r cymwysterau, yr hyfforddiant a'r cymhwysedd addas ar gael i weithio yn y gwasanaeth, gan ystyried anghenion gofal a chymorth yr unigolion	Newydd
36	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei oruchwylio'n briodol bob tri mis.	Newydd
21	Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau y darperir gofal a chymorth i bob unigolyn yn unol â'i gynllun personol	Newydd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 21/02/2024